



National Assembly for Wales / Cynulliad Cenedlaethol Cymru
[Health and Social Care Committee / Y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol](#)

[Regulation and Inspection of Social Care \(Wales\) Bill / Bil
Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

Evidence from Welsh Language Commissioner - RISC 24 /
Tystiolaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg - RISC 24

22/04/2015

Annwyl Aelodau,

Diolch i chi am y cyfle hwn i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Cyd-destun

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith; ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

██████████
████████████████████
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

██████████
████████████████████
Correspondence welcomed in Welsh and English



yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Felly prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r adolygiad hwn effeithio arnynt. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol neu Lywodraeth Cymru yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi pwysleisio ar sawl achlysur bwysigrwydd ystyried y Gymraeg fel mater llorweddol mewn cyd-destunau neu feysydd polisi ehangach. Gwelwyd hyn eisoes yn achos Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ble y gosodwyd cyfeiriadau clir a diamwys at y Gymraeg ar wyneb y Ddeddf. Mae'r Bil Cynllunio newydd hefyd yn rhoi dyletswyddau iaith ar awdurdodau lleol ac mae Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswyddau ar rai cyrff cyhoeddus yng nghyswllt y Gymraeg. Mae adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer y Gymraeg gan osod gofynion ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i asesu y camau y mae angen eu cymryd i ddarparu'r ystod a'r lefel o wasanaethau gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd felly, pwysleisiwn bwysigrwydd gweld cyfeiriadau clir a diamwys at y Gymraeg yn y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Dyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru' ym mis Rhagfyr 2013 bu inni nodi'r pwyntiau canlynol:

- **Llesiant dinasyddion a chynnig gwasanaethau yn Gymraeg:** *'...un o'ch amcanion fydd gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ganlyniadau llesiant dinasyddion sy'n derbyn gofal a chymorth. Er mwyn blaenoriaethu diogelwch pob dinesydd yn effeithiol, awgrymwn y dylid sicrhau bod modd i unigolion ddefnyddio eu dewis iaith, a hynny heb orfod gofyn amdani.'*
- **Craffu annibynnol ar wasanaethau ac adrodd ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau:** *'...ni ddylai unrhyw arferion arolygu, yn arbennig craffu ar brofiad defnyddwyr, eithrio casglu gwybodaeth ar brofiadau gwasanaethau yn Gymraeg.'*
- **Ailsefydlu Cyngor Gofal Cymru:** *'...ni ddylai'r gwaith hwn arwain at erydu ymrwymïadau iaith a geir yng Nghynllun Iaith Gymraeg presennol y Cyngor Gofal ac fe ddylid chwilio am gyfleoedd i'w cryfhau.'*

Croesawaf y ffaith fod yr asesiado effaith y Bil hwn ar y Gymraeg yn nodi y dylai'r Bil 'bwysleisio'r angen i hybu ac annog y 'Cynnig Rhagweithiol' ymhellach fel yr amlinellir yn *Mwy na Geiriau...*' Mae'r ddogfen asesiad effaith hefyd yn nodi y bydd y Bil yn 'cryfhau ac yn sianelu ymdrechion presennol y ddau reoleiddiwr, sef y Cyngor Gofal a'r AGGCC, o helpu i gyflawni'r nodau hyn [sef rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod darparwyr



gwasanaeth yn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio'n fwy helaeth ar y defnyddwyr, gan gynnwys mwy o bwys ar eu dewis i siarad Cymraeg os ydynt yn dymuno]... *Bydd hynny'n gofyn am gyfundrefn arolygu newydd i fonitro a gwerthuso bod y darparwyr gwasanaeth yn darparu gwasanaethau sydd o ansawdd uchel ac sy'n bodloni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y defnyddiwr.'*

Y mae adran 'Effeithiau ar y Gymraeg' yn asesiad effaith y Bil yn nodi y bydd y Bil 'yn helpu i bennu ffocws ar gyfer yr ymdrech i sicrhau gwelliannau pellach neu ddarparu esiampl o arfer gorau y gall eraill geisio ei dilyn, a gwella neu gryfhau'r modd y caiff gwasanaethau gofal eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg'. Awgryma'r asesiad effaith hefyd y bydd yr adroddiadau blynyddol fydd yn cael eu paratoi gan ddarparwyr gwasanaethau yn 'helpu i gyfleu'r darlun ehangach o wasanaethau sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys nodi unrhyw ardaloedd lle gallai fod angen rhagor o gymorth i ymateb i unrhyw ddiffygion (hy yr angen am ragor o staff sy'n siarad Cymraeg yn ne-ddwyrain Cymru).' Awgryma'r asesiad effaith ymhellach y bydd y Bil yn golygu y bydd gan y rheoleiddiwr gwasanaeth a'r rheoleiddiwr gweithlu y data i 'helpu datblygu darlun cenedlaethol cliriach o'r gweithlu a'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau Cymraeg, a fydd...yn helpu defnyddwyr gwasanaeth posibl i ddod o hyd i'r gwasanaethau hynny os ydynt am eu cael'.

Er gwaethaf canfyddiadau'r asesiad effaith iaith, ni cheir unrhyw gyfeiriadau clir a diamwys at y Gymraeg ar wyneb y Bil hwn. Yr unig gyfeiriad a wneir at unrhyw fater yn ymwneud â'r Gymraeg yw'r cyfeiriad canlynol yn Adran 40. Y mae'r cyfeiriad hwn yn nodi y dylid cynnwys gwybodaeth yn adroddiad blynyddol darparwyr gwasanaethau am y modd yr effeithiodd y dyletswyddau 'safonau' dan Fesur y Gymraeg (2011) ar arfer swyddogaethau:

- 40 (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys manylion am y canlynol—
 - (a) sut y mae Gweinidogion Cymru wedi arfer y swyddogaethau hynny yn ystod y flwyddyn,
 - (b) y graddau y maent, wrth arfer y swyddogaethau hynny—
 - (i) wedi cyflawni'r amcanion y cyfeirir atynt yn adran 4, a
 - (ii) wedi rhoi sylw i'r datganiad polisi diweddaraf a gyhoeddwyd o dan adran 39, ac
 - (c) sut yr effeithiodd y dyletswyddau a grybwyllir yn is-adran (4) ar arfer y swyddogaethau hynny yn ystod y flwyddyn.
- (3) Caiff yr adroddiad blynyddol gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.
- (4) Y dyletswyddau y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(c) yw dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan—
 - (a) adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15) (dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus),
 - (b) adran 1(1) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (mccc 2) (dyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn), ac
 - (c) Rhan 4 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) (safonau).

Heb gyfeiriadau amlwg a phenodol at yr iaith Gymraeg a gwasanaethau drwy gyfrwng yr iaith honno ar wyneb y Bil hwn, anodd iawn yw dirnad sut y bydd modd iddo gyflawni'r canlyniadau y dymunir eu cyflawni yn ôl yr asesiad effaith ar y Gymraeg. Y mae hi hefyd




Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

yn syndod gweld bod yr asesiad effaith hwn yn cyfeirio, eto fyth, at yr angen i ddefnyddwyr gwasanaeth posibl 'ddod o hyd i'r gwasanaethau [cyfrwng Cymraeg] hynny os ydynt am eu cael', yn hytrach na bo'r pwyslais ar yr angen i'r darparwr gynnig y gwasanaethau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhoi'r cyfrifoldeb ar y defnyddiwr i 'ddod o hyd i'r gwasanaethau' yn mynd yn gwbl groes i gysyniad y 'Cynnig Rhagweithiol', sy'n sail i safonau cyflenwi gwasanaeth y Llywodraeth ac sydd hefyd yn un o seiliau 'Mwy na Geiriau'.

Mae hi'n debygol mai safonau cyffredin fydd y dyletswyddau a osodir dan y Mesur Iaith ac na fydd safonau penodol yn cael eu gosod ar y sector dan sylw yn y Bil hwn. Y perygl yw, os na fydd y Bil yn cynnig arweiniad clir i ddarparwyr a rheoleiddwyr ar ba wasanaethau ddylai fod ar gael yn Gymraeg, gallasai hynny gael cryn effaith ar argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y sector hwn.

Ar ran defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, gofynnaf eich bod yn ystyried fy sylwadau uchod.

Yn gywir,



Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg